

E-lawlyfr 2

CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

Adnodd 1

*Rhyddfrydiaeth:
Nodweddion
Allweddol*

**Cyflwyniad a
Gwybodaeth Graidd**

CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

: Gwybodaeth Graidd

: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion

: Canllaw i Athrawon

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

TEITL YR UNED	MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED
Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol	3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol	3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol

Awdur yr adnodd hwn:

Dr. Huw Lewis

GWYBODAETH GRAIDD

Cyflwyno Rhyddfrydiaeth

Yn achos y byd gorllewinol, mae dylanwad rhyddfrydiaeth wedi bod yn aruthrol. Erbyn heddiw mae gwerthoedd rhyddfrydol megis unigolyddiaeth, rhyddid, goddefgarwch a chydsyniad wedi'u gwreiddio'n ddwfn iawn yn ein cymdeithas, gan gyfrannu'n helaeth at siapio ein daliadau mwyaf sylfaenol. Yn wir, cymaint fu dylanwad rhyddfrydiaeth ar fyd-olwg cymdeithasau gorllewinol nes ei bod yn anodd iawn ar brydiau i wahaniaethu mewn modd ystyron rhwng rhyddfrydiaeth a'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel 'y ffordd o fyw gorllewinol' neu'r 'gwareiddiad gorllewinol'.

Er y dylanwad pellgyrhaeddol hwn, mae'n bwysig cofio na ddaeth rhyddfrydiaeth i gael ei fabwysiadu fel label gwleidyddol penodol – hynny yw fel modd o ddiffinio ymlyniad gwleidyddol person neu grŵp – hyd at ddegawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosib mai yn Sbaen ym 1812 y gwelwyd hyn yn digwydd am y tro cyntaf, pan fabwysiadwyd yr enw *Liberales* gan blaid newydd a sefydlwyd mewn gwrthwynebiad i garfanau mwy ceidwadol oedd yn gefnogol i'r frenhiniaeth. Wedi hynny, datblygodd y defnydd gwleidyddol o'r term yn gyflym iawn. Erbyn tua'r 1840au, câi rhyddfrydiaeth ei gydnabod ar draws Ewrop fel term a oedd yn cyfeirio at gasgliad cydlynol o syniadau gwleidyddol cymharol radical.

Fodd bynnag, penllanw ar gyfnod o ddatblygu oedd hyn. Tra na châi rhyddfrydiaeth ei chydabod fel safbwynt gwleidyddol penodol hyd at ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y math o syniadau ac egwyddorion a gynrychioliad ganddi yn rhai a fu'n datblygu'n raddol am bron i dri canrif cyn hynny. Mae'r drafodaeth ynglŷn â pha ffactorau'n union arweiniodd at hybu datblygiad syniadau rhyddfrydol yn ystod y cyfnod hwn – 1600au-1800au – yn un eang dros ben. Mae ysgolheigion sy'n astudio hanes syniadau gwleidyddol wedi dewis dilyn sawl trywydd gwahanol, gan roi sylw i ystod o ddatblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol arwyddocaol. Fodd bynnag, ymhlith y mwyaf amlwg mae:

: Y gyfres o **chwyldroadau gwleidyddol** mawr a welwyd yn Lloegr (1688), America (1776) a Ffrainc (1789); digwyddiadau a oedd oll, mewn amrywiol ffyrdd, yn rhoi mynegiant i themâu rhyddfrydol allweddol, gan gynnwys unigolyddiaeth, goddefgarwch, rhyddid a'r angen i osod cyfyngiadau ar rym gwleidyddol.

: Yr **Ymoleuo**, sef y mudiad diwylliannol a deallusol a ddaeth i amlygrwydd yn ystod y ddeunawfed ganrif, gan arwain at danseilio dehongliadau traddodiadol o grefydd gwleidyddiaeth a dysg trwy ddyrchafu cred yng ngallu pobl i ddefnyddio eu gallu i resymu er mwyn deall y byd.

: Datblygiad y **gymdeithas gyfalafol fodern** o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen a wnaeth arwain, ymhlith pethau eraill, at ddatblygiad dosbarth canol niferus oedd yn gynyddol amharod i dderbyn y cyfyngiadau ar ryddid gwleidyddol ac economaidd a oedd wedi nodweddu cyfundrefnau brenhinol absoliwt y canrifoedd cynt.

Gwelir felly fod ystod o ddatblygiadau arwyddocaol wedi cyfrannu at ddatblygiad syniadau rhyddfrydol. Ar y lefel fwyaf cyffredinol, yr hyn y gellir ei gasglu yw bod y cyfnod rhwng yr ail ganrif ar bymtheg a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi bod yn un a brofodd drawsnewidiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol ac mai un o ganlyniadau'r broses honno oedd rhyddfrydiaeth.

Nodweddion Allweddol Rhyddfrydiaeth

Wrth gwrs, dros y canrifoedd mae'r dadleuon a'r egwyddorion a gysylltir â rhyddfrydiaeth wedi esblygu cryn dipyn. Fel y dangosir yn Adnodd 2 gwelwyd mathau gwahanol o ryddfrydiaeth yn datblygu – rhyddfrydiaeth glasur a rhyddfrydiaeth fodern. Eto i gyd, gellir rhestru cyfres o elfennau pwysig sy'n tueddu i gael eu hystyried fel rhai sy'n allweddol i'r byd-olwg rhyddfrydol.

Unigolyddiaeth

Mae unigolyddiaeth yn egwyddor ryddfrydol cwbl greiddiol. Golyga bod rhyddfrydwyr o'r farn y dylid gosod lles a buddiannau bodau dynol unigol uwchlaw rhai cymdeithas, neu unrhyw grŵp torfol arall. Dadleuir y dylid cydnabod bod bodau dynol, yn y lle cyntaf, oll yn unigolion gwahanol, a bod i'r ffaith hon arwyddocâd moesol pellgyrhaeddol. I ddechrau, golyga y dylid cydnabod bod pob person yn greadur unigryw sy'n meddu ar gymeriad, chwaeth a hunaniaeth benodol. Yn ogystal, golyga y dylid cydnabod bod pob person yn gydradd o ran ei statws moesol, gan fod pawb, yn y lle cyntaf, yn unigolyn.

O ganlyniad i'r daliadau hyn y nod gwleidyddol i ryddfrydwyr fu creu cymdeithas a fyddai'n caniatáu i unigolion fedru byw eu bywydau yn ôl eu dymuniadau personol. Golyga hyn fod rhyddfrydwr wedi tueddu i fod yn amheus o unrhyw safbwynt gwleidyddol sy'n ceisio estyn gormod o reolaeth dros fywyd yr unigolyn, gan gyfyngu ar ei allu i osod ei gwrs ei hun ar gyfer ei fywyd.

Fodd bynnag, er bod unigolyddiaeth wedi bod yn egwyddor allweddol mewn gwaith rhyddfrydol o bob math dros y canrifoedd, dylid nodi nad yw rhyddfrydwyr wedi bod yn gwbl gytûn ar sut ddylid ei dehongli. Bu tuedd ymhlith rhyddfrydwyr clasur i ddehongli cymdeithas fel dim mwy na chasgliad o unigolion annibynnol, tra bo rhyddfrydwyr modern yn fwy parod i roi sylw i bwysigrwydd y cyswllt rhwng bodau unigol ac unedau ehangach, megis y teulu, y gymuned neu'r genedl (trafodir hyn ymhellach yn Adnodd 2). Eto i gyd, er gwaetha'r gwahaniaethau hyn, mae pob rhyddfrydwr yn tueddu i fod yn gytûn ar y pwynt cyffredinol y dylai lles yr unigolyn gael ei drin fel mater o flaenoriaeth. Mewn geiriau eraill, yr unigolyn yw'r man cychwyn ar gyfer pob rhyddfrydwr – yr uned fwyaf sylfaenol.

Rhyddid

Law yn llaw ag unigolyddiaeth, mae rhyddfrydwyr hefyd yn trin rhyddid fel egwyddor hollbwysig. Mae'r pwyslais ar ryddid yn deillio'n naturiol o'r gred y dylai cymdeithas gael ei threfnu mewn modd sy'n caniatáu i'r unigolyn i fyw ei fywyd fel y mae ef neu hi'n dymuno. Er mwyn medru gwneud hynny, rhaid i'r unigolyn fod yn rydd.

Fodd bynnag, tuedda rhyddfrydwyr i dderbyn nad yw'n ymarferol i unigolion feddu ar ryddid absoliwt, di-derfyn. Byddai rhyddid o'r fath yn medru creu sefyllfa lle gallai rhai unigolion ddefnyddio eu rhyddid i niweidio neu gaethiwo eraill, gan arwain at anrhefn. O ganlyniad, er bod rhyddid yn egwyddor sylfaenol i ryddfrydwyr, maent yn barod i osod rhai cyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw er mwyn i bawb fedru cyd-fyw. Yn fras, argymhellir y dylai pawb gael gymaint o ryddid ag sy'n bosib heb amharu ar ryddid eraill. Yng ngeiriau John Rawls (1971): *'that everyone is entitled to the widest possible liberty consistent with a like liberty for all'*.

Fodd bynnag, tra bo rhyddfrydwyr yn gytûn ar yr angen i drin rhyddid fel egwyddor sylfaenol, nid ydynt wastad wedi cyd-weld ynglŷn a sut, yn ymarferol, y dylid gwarantu'r rhyddid hwnnw. Ar y naill law, mae rhyddfrydwyr clasur wedi mynnu bod rhyddid unigolion yn ddibynnol ar adael llonydd iddynt geisio diddymu unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag gwneud fel y mynnont. Ar y llaw arall, mae rhyddfrydwyr modern wedi mynnu bod gwarantu rhyddid unigolion yn galw am gymryd cyfres o gamau cadarnhaol er mwyn creu amodau cymdeithasol ac economaidd a fydd yn caniatáu iddynt ddatblygu eu galluoedd a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas (trafodir y safbwyntiau hyn ymhellach yn Adnodd 2).

Cydraddoldeb

Ymhlyg yn yr unigolyddiaeth a gaiff ei harddel gan ryddfrydwyr mae cred mewn cydraddoldeb sylfaenol – hynny yw y gred fod pob person yn gydradd o ran ei statws moesol, gan fod pawb, yn y lle cyntaf, yn unigolyn. Mae hyn wedyn yn arwain rhyddfrydwyr i ddadlau y dylai pawb feddu ar yr un statws ffurfiol o fewn cymdeithas, ac yn benodol y dylai pob unigolyn, beth bynnag fo'i cefndir, gael yr un hawliau a breintiau. O ganlyniad, mae rhyddfrydwyr yn gwrthwynebu unrhyw drefniadau sy'n rhoi cyfleoedd i rai carfannau ond ddim i eraill ar sail nodweddion megis rhyw, lliw croen, crefydd neu ddsbarth cymdeithasol. Rhai o'r enghreifftiau mwyaf cyfarwydd o'r cydraddoldeb ffurfiol hwn ar waith yw 'cydraddoldeb cyfreithiol' a 'chydaddoldeb gwleidyddol'. Mae'r cyntaf yn mynnu y dylai'r gyfundrefn gyfreithiol drin pob aelod o gymdeithas yn gyson ac yn ddiwahân, gan ddiystyru unrhyw ffactorau cymdeithasol eraill (hil, rhyw, dosbarth) wrth weinyddu'r gyfraith. Mae'r ail yn mynnu y dylai'r gyfundrefn wleidyddol drin pawb yn gyfartal, er enghraifft trwy estyn yr un hawliau pleidleisio i bawb a sicrhau y bydd pleidlais pawb yn gydradd o ran gwerth.

Fodd bynnag, nid yw rhyddfrydwyr yn credu mewn cydraddoldeb absoliwt – hynny yw, y dylai canlyniadau bywyd fod yn gydradd ar gyfer pawb ac na ddylai fod unrhyw wahaniaethau o ran amodau byw neu gyfoeth ymhlith aelodau cymdeithas. Yn hytrach, mae rhyddfrydwyr yn ffafrio'r syniad o gyfle cyfartal. Mynnir mai'r nod ddylai fod creu man cychwyn cyfartal i bawb, gan dderbyn wedyn y bydd unigolion yn mynd i gyfeiriadau gwahanol yn ystod eu bywydau. Mae rhyddfrydwyr wedi tueddu i fod yn amheus o'r syniad mwy pellgyrhaeddol o gydraddoldeb absoliwt, gan ein bod oll yn unigolion sy'n meddu ar dalentau gwahanol a hefyd yn tueddu i amrywio o ran ein chwaeth, ein personoliaeth a'n dyhead i hunan-ddyrchafu.

Rheswm

Mae rhyddfrydiaeth yn ideoleg a ddatblygodd yng nghysgod yr Ymoleuo – mudiad diwylliannol a deallusol yn ystod y ddeunawfed ganrif arweiniodd at danseilio dehongliadau traddodiadol o grefydd, gwleidyddiaeth a dysg trwy ddyrchafu cred yng ngallu pobl i ddefnyddio eu gallu i resymu er mwyn deall y byd. Canlyniad hyn yw bod dylanwad yr Ymoleuo a'i bwyslais ar resymoliaeth wedi dylanwadu ar ddatblygiad rhyddfrydiaeth mewn amryw o ffyrdd.

I ddechrau, mae'r awydd ymhlith rhyddfrydwyr i estyn rhyddid i bob unigolyn yn deillio'n rhannol o'r gred fod bodau dynol yn greaduriaid rhesymol sy'n meddu ar y gallu i feddwl drostynt eu hunain, a thrwy hynny, i benderfynu ar lwybr addas i'w ddilyn yn ystod eu bywydau. Nid yw'r ffydd hwn yn ein gallu i resymu yn golygu bod rhyddfrydwyr yn meddwl bod pobl yn gwbl anffaeledig. Fodd bynnag, golyga fod rhyddfrydwyr yn amharod iawn i arddel syniadau tadol (*paternal*) a nodweddir gan duedd i gyfarwyddo pobl ar sut y dylent fyw eu bywydau.

Yn ail, mae'r pwyslais ar rinweddau rhesymoliaeth wedi esgor ar y gred ryddfrydol mewn cynnydd. Yn nhyb rhyddfrydwyr, mae'r modd y cafodd ffiniau gwybodaeth eu hehangu'n barhaol dros y canrifoedd diwethaf, yn benodol yn sgil y chwyldro gwyddonol, wedi creu sefyllfa lle mae modd i fodau dynol ddeall ac egluro natur eu byd. Ymhellach, ar sail ein gallu i resymu, golyga y gall pobl fynd ati i geisio trefnu'r byd er gwell. Disgwylir hefyd y bydd pob cenhedlaeth, yn ei thro, yn medru ychwanegu at stôr y ddynoliaeth o wybodaeth, a thrwy hynny, gyfrannu at gynyddu'r potensial ar gyfer cynnydd pellach yn y dyfodol.

Yn drydydd, mae'r pwyslais ar reswm wedi arwain rhyddfrydwyr i roi ffydd yn rhinweddau trafodaeth. Derbynnir bod gwrthdaro – er enghraifft ynglŷn â sut i rannu neu sut i ddefnyddio adnoddau prin – yn anochel mewn unrhyw gymdeithas. Eto i gyd, pan fo hyn yn codi, cred rhyddfrydwyr mai'r unig ffordd o ddatrys yr anghydweld yw trwy gyfrwng trafodaeth agored. Credir bod hwn yn ddull a fydd yn dwyn ffrwyth, gan fod bodau dynol yn greaduriaid rhesymol. Yn sgil

hynny, trwy drafod byddant yn dod i weld mai ofer yw parhau â'r gwrthdaro ac y gallai peidio cymodi arwain at ganlyniadau anffodus iawn, gan gynnwys trais neu ryfela.

Goddefgarwch

Gan fod cymdeithas yn dwyn ynghyd nifer helaeth o unigolion gwahanol, mae'n anochel y bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o arferion a daliadau moesol, diwylliannol a gwleidyddol. Caiff goddefgarwch o amrywiaethau fel hyn ei drin gan ryddfrydwyr fel angen cwbl sylfaenol. Dadleuir mai dim ond trwy sicrhau bod pobl yn barod i dderbyn y bydd eraill, o bosib, yn dewis meddwl neu ymddwyn mewn ffyrdd nad ydynt hwy yn eu cymeradwyo y gellir creu amodau cymdeithasol a fydd yn caniatáu i unigolion gwahanol fyw bywydau rhydd. Mae hanes hir i'r pwyslais hwn ar oddefgarwch a'r cysylltiad rhyngddo a rhyddid yr unigolyn o fewn y traddodiad rhyddfrydol. Roedd yn bwnc canolog yng ngwaith rhyddfrydwyr cynnar megis John Locke (1632-1704) ac yn benodol ei ymgais i amddiffyn y syniad o ryddid crefyddol. Yn ei ysgrif enwog, *A Letter Concerning Toleration* (1689), dadleuodd Locke nad oedd yn briodol bod y wladwriaeth yn ymyrryd yn y dasg o 'ofalu am eneidiau dynion.'

Fodd bynnag, yn nhyb rhai rhyddfrydwyr, nid dim ond rhywbeth y dylid ei oddef yw cymdeithas sy'n cynnwys amrywiaethau moesol, diwylliannol a gwleidyddol. Dadleuir y dylai plwraliaeth gymdeithasol o'r fath gael ei thrin fel nodwedd gadarnhaol y dylid ei dathlu a'i hybu. Er enghraifft, yn ei gyfrol enwog, *On Liberty* (1859), dadleuodd J. S. Mill o blaid cymdeithas sy'n caniatáu i ystod o syniadau gwahanol gael eu harddel a'u trafod yn agored. Mynnodd fod amgylchiadau o'r fath yn debygol o hybu trafod, dysg a chynnydd cymdeithasol.

Cydsyniad

Yn nhyb rhyddfrydwyr dylai awdurdod gwleidyddol a hefyd unrhyw drefniadau cymdeithasol fod yn seiliedig ar gytundeb a chydsyniad. O ganlyniad, dylai unrhyw lywodraeth feddu ar gydsyniad y rhai y mae'n llywodraethu drostynt. Dyma'r dybiaeth sydd wedi arwain rhyddfrydwyr i ffafrio trefniadau llywodraethol cynrychioladol a democrataidd yn hytrach na rhai unbenaethol. Yn yr un modd dylai unrhyw gymdeithasau neu rwydweithiau sy'n bodoli o fewn cymuned gael eu dehongli fel endidau sy'n deillio o gytundeb rhydd rhwng gwahanol unigolion, ac sydd felly ond yn meddu ar werth cyhyd ag y bo'r unigolion sy'n eu cynnal yn cydsynio. At ei gilydd felly, gwelir fod rhyddfrydwyr yn tueddu i gredu bod awdurdod a dilysrwydd yn nodweddion sydd wastad yn codi o'r gwaelod – o blith yr unigolion sy'n ffurfio cymdeithas.

Cyfansoddiadaeth

Ochr yn ochr â chydsyniad, mae trafodaethau rhyddfrydol ynglŷn â natur llywodraeth yn tueddu i bwysleisio egwyddor cyfansoddiadaeth. Er bod rhyddfrydwyr yn derbyn bod rhaid sefydlu llywodraeth o ryw fath er mwyn cadw trefn, credant fod peryg i bob llywodraeth – hyd yn oed y rhai sy'n seiliedig ar gydsyniad – ymyrryd yn ormodol ym mywyd yr unigolyn. Caiff y pryder hwn ei grynhoi'n effeithiol gan eiriau enwog yr Arglwydd Acton: *'Power tends to corrupt, and absolute power corrupts absolutely'*. O ganlyniad, mae rhyddfrydwyr wedi tueddu i ddadlau o blaid trefniadau gwleidyddol a chyfreithiol a fydd yn ffrwyno grym y wladwriaeth mewn ffyrdd pwysig – dyma hanfod y syniad o gyfansoddiadaeth.

Yn gyffredinol, casgliad o reolau yw cyfansoddiad sy'n amlinellu dyletswyddau a grymoedd y sefydliadau gwahanol sy'n rhan o'r wladwriaeth. Un o nodweddion allweddol cyfansoddiadaeth ryddfrydol yw'r gred y dylai cyfansoddiad gwlad osod terfynau cyfreithiol clir ar hyd a lled grym y wladwriaeth. Yn ymarferol, mae hyn wedi tueddu i olygu mabwysiadu cyfansoddiadau ysgrifenedig sy'n nodi'n glir beth yw swyddogaethau'r wladwriaeth, ond hefyd beth yw'r meysydd hynny lle

na ddylai ei grym gael ei estyn. Yr enghraifft gyntaf o gyfansoddiad ysgrifenedig o'r math hwn oedd Cyfansoddiad Unol Daleithiau America a luniwyd ym 1787. Yn dilyn hynny, daeth yr arfer o fabwysiadu cyfansoddiadau ysgrifenedig yn gyffredin iawn ar draws gwladwriaethau rhyddfrydol-ddemocratiaidd ac erbyn heddiw Israel, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig yw'r unig eithriadau.

O ganlyniad, cred rhyddfrydwyr y dylid sicrhau bod cyfyngiadau pendant yn cael eu gosod ar allu'r llywodraeth i ymyrryd mewn rhai meysydd pwysig. Un ffordd gyffredin o wneud hyn yw trwy fabwysiadu cyfansoddiad sy'n gosod terfyn ar yr hyn y caiff gwladwriaeth ei wneud.